OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 1332

# Rheoliadau'r Premiwm Cigydda (Cymru) 2001

## Rhan II

### Amodau ar gyfer talu'r premiwm cigydda

**Cigydda mewn lladd-dai cofrestredig**

**7.**—(1) Ni roddir premiwm cigydda i unrhyw geisydd am gigydda anifail premiwm oni bai bod yr amodau a bennir ym mharagraff (2) wedi'u bodloni.

(2) Dyma'r amodau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)—

(a) yn achos cigydda anifail premiwm heblaw llo premiwm, ei fod wedi'i gigydda mewn lladd-dy sydd wedi'i gofrestru ar gyfer cigydda anifeiliaid premiwm heblaw lloi premiwm gan y Bwrdd—

(i) yn unol â rheoliad 14; neu

(ii) yn unol ag unrhyw ddeddfiad sy'n rhoi pŵ er cofrestru cyfatebol mewn perthynas â lladd-dai yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon mewn telerau sydd o ran eu sylwedd yn union yr un fath â'r telerau a geir yn rheoliadau 13 i 19 ac yn yr Atodlen;

a

(b) yn achos cigydda llo premiwm, ei fod wedi'i gigydda mewn lladd-dy sydd wedi'i gofrestru ar gyfer cigydda lloi premiwm gan y Bwrdd—

(i) yn unol â rheoliad 14; neu

(ii) yn unol ag unrhyw ddeddfiad sy'n rhoi pŵ er cofrestru cyfatebol mewn perthynas â lladd-dai yn Lloegr, yr Alban, neu Ogledd Iwerddon mewn telerau sydd o ran eu sylwedd yn union yr un fath â'r telerau a geir yn rheoliad 13 i 19 ac yn yr Atodlen.